



Swydd: 2 x Interniaeth Dawns yn y Gymuned (nodwch - mae'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl yn hanfodol ar gyfer y swydd)

MANYLION SWYDD:

Teitl:	Intern Dawns yn y Gymuned
Oriau:	Rhan amser 20 awr yr wythnos (Yn cynnwys gweithio gyda'r nos a phenwythnosau)
Cyflog:	£10 yr awr
Lleoliad Swyddfa:	Galeri, Caernarfon
Ardaloedd:	Gwynedd, Conwy, Ynys Môn
Dyddiad Dechrau:	08.07.19
Dyddiad cau am geisio:	14.06.19
Dyddiad Cyfweld:	20-21.06.19

Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, mae'n bleser gan Dawns i Bawb i gyhoeddi 2 swydd Intern Dawns yn y Gymuned. Bydd yr Interniaethau hyn yn rhoi cyfle i raddedigion dawns sy'n siarad Cymraeg ymgymryd â rhaglen hyfforddi â thâl dros 6 mis i ddatblygu sgiliau dysgu ac arwain prosiectau dawns i bobl o bob oed a gallu, yn ogystal â'r cyfle i weithio i Dawns i Bawb fel ymarferydd dawns llawrydd ar ôl cwblhau'r Interniaeth. Bydd y rolau yn cefnogi Dawns i Bawb i ddatblygu gweithlu o Ymarferwyr Dawns Cymraeg ac i ddatblygu ei weithgareddau dawns Gymraeg ledled Gogledd Orllewin Cymru.

Y CWMNI:

Mae Dawns i Bawb yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Ffurfiwyd y cwmni ym 1988 ac fe'i lleolir yn Galeri, Caernarfon. Mae Dawns i Bawb yn gleient portffolio Cyngor y Celfyddydau Cymru a hefyd yn derbyn grantiau refeniw gan Gyngorau Sir Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn.

Fel y sefydliad dawns yn y gymuned i Ogledd-Orllewin Cymru, mae Dawns i Bawb yn datblygu darpariaeth dawns ledled tair sir Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Rydym yn cydweithio a chreu gyda phobl a chymunedau, ymarferwyr dawns amatur a phroffesiynol, coreograffwyr a chwmnïau.

Rydym yn credu bod pawb yn gallu dawnsio ac yn parhau i ddadlau'r manteision o ddawns i'n cymunedau o fewn y cyd-destun twf personol, iechyd a lles cymdeithasol, rhyngweithio cymdeithasol a chymunedol a hunaniaeth ddiwylliannol.

Ein nôd yw:

- **Ysbrydoli Creadigrwydd**
- **Sicrhau a chynnal darpariaeth berthnasol ar draws y tair sir**
- **Eirioli dawns fel cyfrwng pwerus y gellir mynd i'r afael â materion pwysig**
- **Sicrhau ymateb i'n cymunedau brodorol trwy ddarparu darpariaeth dawns Gymraeg a dwyieithog o safon uchel**

Rydym yn gweithio gyda phobl o bob oed a gallu, gan gynnwys grwpiau dan anfantais a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, gan roi cyfle i bawb gymryd rhan mewn gweithgaredd dawns.

Mae elfennau o'n gweithgaredd yn cynnwys gweithio ar gynrychiadau ar raddfa fawr gyda grwpiau mawr o gyfranogwyr i sesiynau grŵp bach gydag ychydig o unigolion. Beth bynnag yw maint y grŵp, hyd y prosiect neu'r gweithgaredd, mae ein hamcan yn parhau i fod yr un fath: cynnig gweithgaredd dawns o ansawdd uchel sy'n hygyrch i bawb sydd am fod yn rhan ohono, a lle gall cyfranogwyr archwilio ymateb creadigol trwy ddawns a symud.

Mae gweithgareddau yn cynnwys:

- Dosbarthiadau cymunedol rheolaidd
- Gweithgareddau addysgol gydag ysgolion Cynradd ac Uwchradd
- Prosiectau penodol gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau perthnasol
- Cynnig cefnogaeth a chyfleoedd Datblygiad Proffesiynol i artistiaid proffesiynol
- Cynlluniau Hyfforddi
- Rhaglen 'Celfyddydau mewn Iechyd' helaeth a llwyddiannus

Ein cylch gwaith daearyddol yw tair sir Gogledd Orllewin Cymru; Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r siroedd yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig ac mae ganddynt hunaniaeth ddiwylliannol gref gyda rhai ardaloedd sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg o fewn ardal ddaearyddol. Mae'n hanfodol i ni fel sefydliad ymateb i hyn ac felly sicrhau bod ein gweithgaredd yn berthnasol i'n cymunedau, bod ein darpariaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac y gall ein cyfranogwyr weithio yn greadigol yn yr iaith o'u dewis. Mae Dawns i Bawb yn gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae ganddi bolisi Cymraeg gref sy'n sicrhau bod ein holl wybodaeth gyhoeddus ar gael trwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

Y RHAGLEN INTERNIAETH:

Mae hon yn rhaglen hyfforddi ddwys, rhan-amser â thâl ar gyfer 2 raddedigion dawns sy'n siarad Cymraeg, dros gyfnod o 6 mis. Bydd interniaid yn derbyn hyfforddiant a mentora gan dîm Dawns i Bawb i ddatblygu sgiliau wrth arwain sesiynau a phrosiectau cymunedol a chael eu cefnogi i sefydlu gyrfa dawns cymunedol llawrydd. Bydd cyfle i Interniaid llwyddiannus weithio i Dawns i Bawb ar ôl cwblhau hyfforddiant ar sail hunangyflogedig.

Mae'r Interniaethau wedi'u hanelu at bobl sydd â gradd mewn dawns ac felly wedi derbyn hyfforddiant uwch mewn techneg ddawns a choreograffig, sy'n dymuno datblygu eu sgiliau arwain a dysgu dawns drwy brofiad ymarferol. Bydd interniaid yn cael y cyfle i dderbyn mentora proffesiynol, i weithio ochr yn ochr â'n tîm o ymarferwyr ac ymgymryd â phrosiectau wrth dderbyn arweiniad a mentora.

Dawns i Bawb yw un o'r unig sefydliadau Dawns Cymunedol yng Nghymru sy'n gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym ethos Cymraeg cryf iawn ac rydym angen tîm cryf o artistiaid dawns a all ein cefnogi i gyflawni'r ethos hwn. Pwrpas yr Interniaethau hyn yw ein galluogi i ddatblygu ein tîm o Artistiaid Dawns medrus, sy'n siarad Cymraeg. Ymgymerir â phob elfen o'r ddau Interniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a bydd y gwaith y bydd Interniaid llwyddiannus yn ei wneud gyda Dawns i Bawb fel ymarferwyr llawrydd yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd holl elfennau'r ddau Interniaeth yn cael eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, mae rhuglder Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn.

SGILIAU ANGENRHEIDIOL:

- Gradd mewn dawns
- Yn rhugl mewn Cymraeg llafar ac ysgrifenedig
- Y gallu i gyd-weithio fel rhan o dîm bach
- Sgiliau rhyngpersonol cryf
- Y gallu i addasu i ofynion a heriau
- Y gallu i gynllunio gwaith yn effeithlol a gweithio tuag at derfynau amser
- Hyder wrth arwain sesiynau
- Yn gymwys mewn cyfathrebu ysgrifenedig a llafar
- Yn gymwys mewn TG a defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Trwydded yrru a defnyddio car eich hun

I wneud cais, anfonwch CV a llythyr eglurhaol sy'n amlinellu'ch profiad blaenorol a beth rydych chi'n deimlo y gallwch chi gynnig i'r swydd hon, ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer un ganolwr erbyn **14.06.19** at:

Catherine Young
Cyfarwyddwr Artistig
Dawns i Bawb
Uned 2
Galeri
Caernarfon LL55 1SQ

neu ebostio at: post@dawnsibawb.org

Am sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â Catherine Young:

01286 685220
catherine@dawnsibawb.org

www.dawnsibawb.org
Facebook - Dawns i Bawb
Twitter - DawnsiBawb
Instagram - Dawnsibawb

